





GWEITHGAREDD 1: LLUNIAU NATUR Y DU



GWEITHGAREDD 1: FFEITHIAU NATUR Y DU



Dwi'n wych am reoli plâu a gallaf fwyta hyd at 3,000 o bryfed mewn noson.

Mae arferion ffermio dwys wedi arwain at gollu dolydd blodau sy'n golygu na allaf gael y neithdar mae arna i ei angen. Ers y 1930au mae 97% o ddolydd blodeuog wedi cael eu colli.

Mae ffermio dwys, yn enwedig defnyddio plaladdwyr, yn ei gwneud yn anos imi ddod o hyd i ddigon o bryfed i'w bwyta.

Gallwch fy helpu trwy blannu blodau llawn neithdar yn eich gardd a pheidio â defnyddio plaladdwyr.

Mae dinistrio gwrychoedd a choedwigoedd ar ffermdir wedi ei gwneud yn anos imi ddod o hyd i gysgodfa ac i chwilio ffordd.

Mae gen i diwb hir iawn, a elwir sugnydd, i sugno neithdar o flodau, a dwi'n blasu trwy fy nhraed.

Gallwch fy helpu trwy blannu blodau sy'n denu pryfed imi eu bwyta.

Yn y Deyrnas Unedig, mae 60 o wahanol fathau ohonom ni. Yn aml rydyn ni'n hawdd ein gweld oherwydd ein hadenydd lliwgar.

Dwi'n treulio'r rhan fwyaf o fy mywyd ar y môr, a dim ond i nythu dwi'n glanio ar y tir. Dwi'n amddiffyn fy nyth trwy boeri olew drewllyd.

Gallwch fy helpu trwy blannu blodau llawn neithdar yn eich gardd a pheidio â defnyddio plaladdwyr.

Mae gronynnau plastig i'w cael yn 90% o adar môr y byd. Pan dwi'n bwyta plastigau, caiff fy stumog ei rwystro a dwi'n llwgu i farwolaeth.

Ynghyd â gwenyn, dwi'n peillio planhigion ac yn darparu bwyd i adar, ystumod ac anifeiliaid eraill.

Mae plastig yn tagu'r môr. Caiff wyth miliwn o dunelli eu taflu i'r moroedd pob blwyddyn. Gallwch fy helpu trwy atal plastig rhag mynd i afonydd a moroedd.

Dwi'n nosol a dwi'n treulio misoedd y gaeaf yn cysgu.

Mae gen i synnwyr arogleuo da iawn a dwi'n ei ddefnyddio i arogleuo olew pysgod sy'n codi i wyneb y dŵr. Gallaf blymio hyd at 3 metr o dan y dŵr.

Mae defnyddio plaladdwyr wedi ei gwneud yn anos imi ddod o hyd i ysglyfaeth fel chwilod, mwydod, gwllithod a lindys.

Y minc sy'n ysglyfaethu arnaf i fwyaf. Cafodd ei gyflwyno i'r Deyrnas Unedig ar gyfer ffermio ffwr ond dihangodd ac, fel fi, mae'n byw yn ymyl dŵr.

Gallwch fy helpu trwy beidio â defnyddio plaladdwyr yn eich gardd a thrwy dorri twll yn y ffens fel y gallaf symud o gwmpas.

Gallwch fy helpu trwy ddefnyddio llai o ddŵr. Os yw'r afonydd yn sychu, allaf i ddim goresi.

Pan gaiff fy mabanod eu geni gallan nhw bwyso cyn lleied â 10g, llai na darn dwy bunt.

Pan gaiff gormod o lystyfiant ar hyd ymyl y dŵr ei dorri, dwi'n colli fy nghynefin a'm ffynhonnell bwyd.

Dwi'n hoffi bwyta llygod pengrwn, chwistlod, llygod, llygod mawr ac adar bach. Yn aml caf fy ngweld yn hela gyda'r cyfnos a gyda'r wawr, dros gefn gwlad agored a ffermdir.

Wrth imi durio, bwydo a symud ar hyd ymyl y dŵr, dwi'n creu'r amodau i anifeiliaid eraill a phlanhigion ffynnu.

Prin ydw i'n gwneud unrhyw sŵn wrth imi hedfan, sy'n ddefnyddiol wrth hela mamaliaid bach â chlyw da.

Fi yw un o'r prif beillwyr a dwi'n gyfrifol am un o bob tri chegaid o'ch bwyd chi.

Ers y 1930au mae ffermio dwys wedi achosi i fy ysglyfaeth brinhau ac mae fy niferoedd wedi gostwng 75%.

Dwi'n trosglwyddo paill o'r naill fath o blanhigion blodeuol i'r llall. Mae paill yn caniatáu i blanhigion atgenhedlu a chynhyrchu hadau.

Gallwch fy helpu trwy ddewis prynu cynhyrchion o ffermydd organig a/neu dyfwyr lleol sy'n hybu bywyd gwyllt.

GWEITHGAREDD 1: DALEN ATEB NATUR DU



Ystlum



© SHERRI AND BROCK FENTON / WWF-CANADA

- Dwi'n wych am reoli plâu a gallaf fwyta hyd at 3,000 o bryfed mewn noson.
- Mae ffermio dwys, yn enwedig defnyddio plaladdwyr, yn ei gwneud yn anos imi ddod o hyd i ddigon o bryfed i'w bwyta.
- Mae dinistrio gwrychoedd a choedwigoedd ar ffermdir wedi ei gwneud yn anos imi ddod o hyd i gysgodfa ac i chwilio ffordd.
- Gallwch fy helpu trwy blannu blodau sy'n denu pryfed imi eu bwyta.

Aderyn môr



© WWF / SINDRE KINNERØD

- Dwi'n treulio'r rhan fwyaf o fy mywyd ar y môr, a dim ond i nythu dwi'n glanio ar y tir. Dwi'n amddiffyn fy nyth trwy boeri olew drewllyd.
- Mae gronynnau plastig i'w cael yn 90% o adar môr y byd. Pan dwi'n bwyta plastigau, caiff fy stumog ei rwystro a dwi'n llwgu i farwolaeth.
- Mae plastig yn tagu'r môr. Caiff wyth miliwn o dunelli eu taflu i'r moroedd pob blwyddyn. Gallwch fy helpu trwy atal plastig rhag mynd i afonydd a moroedd.
- Mae gen i synnwyr arogleuo da iawn a dwi'n ei ddefnyddio i arogleuo olew pysgod sy'n codi i wyneb y dŵr. Gallaf blymio hyd at 3 metr o dan y dŵr.

Llygoden bengron y dŵr



© NATUREPL.COM / TERRY WHITTAKER / WWF

- Y minc sy'n ysglyfaethu arnaf i fwyaf. Cafodd ei gyflwyno i'r Deyrnas Unedig ar gyfer ffermio ffwr ond dihangodd ac, fel fi, mae'n byw yn ymyl dŵr.
- Gallwch fy helpu trwy ddefnyddio llai o ddŵr. Os yw'r afonydd yn sychu, allaf i ddim goroesi.
- Pan gaiff gormod o lystyfiant ar hyd ymyl y dŵr ei dorri, dwi'n colli fy nghynefin a'm ffynhonnell bwyd.
- Wrth imi durio, bwydo a symud ar hyd ymyl y dŵr, dwi'n creu'r amodau i anifeiliaid eraill a phlanhigion ffynnu.

Gwenynen



© GREG ARMFIELD / WWF-UK

- Fi yw un o'r prif beillwyr a dwi'n gyfrifol am un o bob tri chegaid o'ch bwyd chi.
- Dwi'n trosglwyddo paill o'r naill fath o blanhigyn blodeuol i'r llall. Mae paill yn caniatáu i blanhigion atgenghedlu a chynhyrchu hadau.
- Mae arferion ffermio dwys wedi arwain at golli dolydd blodau sy'n golygu na allaf gael y neithdar mae arna i ei angen. Ers y 1930au mae 97% o ddolydd blodeuog wedi cael eu colli.
- Gallwch fy helpu trwy blannu blodau llawn neithdar yn eich gardd a pheidio â defnyddio plaladdwyr.

Iâr fach yr haf



© GLOBAL WARMING IMAGES / WWF

- Mae gen i diwb hir iawn, a elwir sugnydd, i sugno neithdar o flodau, a dwi'n blasu trwy fy nhraed.
- Yn y Deyrnas Unedig, mae 60 o wahanol fathau ohonom ni. Yn aml rydyn ni'n hawdd ein gweld oherwydd ein hadenydd lliwgar.
- Gallwch fy helpu trwy blannu blodau llawn neithdar yn eich gardd a pheidio â defnyddio plaladdwyr.
- Ynghyd â gwenyn, dwi'n peillio planhigion ac yn darparu bwyd i adar, ystlumod ac anifeiliaid eraill.

Draenog



© OLA JENNERSTEN / WWF-SWEDEN

- Dwi'n nosol a dwi'n treulio misoedd y gaef yn cysgu.
- Mae defnyddio plaladdwyr wedi ei gwneud yn anos imi ddod o hyd i ysglyfaeth fel chwilod, mwydod, gwllithod a lindsys.
- Gallwch fy helpu trwy beidio â defnyddio plaladdwyr yn eich gardd a thrwy dorri twll yn y ffens fel y gallaf symud o gwmpas.
- Pan gaiff fy mabanod eu geni gallan nhw bwyso cyn lleied â 10g, llai na darn dwy bunt.

Tylluan wen



© MARTIN HARVEY / WWF

- Dwi'n hoffi bwyta llygod pengrwn, chwistlod, llygod, llygod mawr ac adar bach. Yn aml caf fy ngweld yn hela gyda'r cyfnos a gyda'r wawr, dros gefn gwlad agored a ffermdir.
- Prin ydw i'n gwneud unrhyw sŵn wrth imi hedfan, sy'n ddefnyddiol wrth hela mamaliaid bach â chlyw da.
- Ers y 1930au mae ffermio dwys wedi achosi i fy ysglyfaeth brinhau ac mae fy niferoedd wedi gostwng 75%.
- Gallwch fy helpu trwy ddewis prynu cynhyrchion o ffermydd organig a/neu dyfwyr lleol sy'n hybu bywyd gwyllt.

GWEITHGAREDD 2: Y FRWYDR I DRWSIO'R SYSTEM BWYD GWELD Y CYSYLLTIADAU - TRAFODAETH



© NATUREPL.COM / ANUP SHAH / WWF



© WWF / RICHARD STONEHOUSE

GWEITHGAREDD 2: Y FRWYDR I DRWSIO'R SYSTEM BWYD GWELD Y CYSYLLTIADAU - LLUNIAU



Beth yw'r linc rhwng orangutaniaid
a'r bwyd rydym yn bwyta?



© NATUREPL.COM / ANUP SHAH / WWF



© WWF / RICHARD STONEHOUSE



© GITA DEFOE




© NATUREPL.COM / JUAN CARLOS MUNOZ / WWF



© JAMES MORGAN / WWF-INTERNATIONAL



© WWF / SIMON RAWLES



© WWF / RICHARD STONEHOUSE

GWEITHGAREDD 2: Y FRWYDR I DRWSIO'R SYSTEM BWYD GWELD Y CYSYLLTIADAU - DALEN ATEB



© NATUREPL.COM / ANUP SHAH / WWF



© GITA DEFOE



© WWF / SIMON RAWLES



© NATUREPL.COM / JUAN CARLOS MUNOZ / WWF



© JAMES MORGAN / WWF-INTERNATIONAL



© WWF / RICHARD STONEHOUSE



© WWF / RICHARD STONEHOUSE

GWEITHGAREDD 2: Y FRWYDR I DRWSIO'R SYSTEM BWYD

GWELD Y CYSYLLTIADAU - OLEW PALMWWYDD



Mae'n debyg nad ydych chi'n sylweddoli faint o'r pethau rydych chi'n eu defnyddio sydd ag olew palmwydd ynddyn nhw. Mae'n gynnyrch a geir yn oddeutu hanner yr holl gynhyrchion wedi'u pecynnu, o fargaŕin, nwdls parod, toes pizza, bara a hufen iâ i siampw, sebon, minlliw, canhwyllau a sebon golchi llestri a dillad. Caiff olew palmwydd ei ddefnyddio hefyd i bweru ceir, porthi anifeiliaid a chynhyrchu trydan. Bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig rydyn ni'n defnyddio tua 1.1 miliwn o dunelli o olew palmwydd.

Mae olew palmwydd yn gnwd anhygoel o effeithlon. Mae'n cynhyrchu mwy o olew am bob arwynebedd tir nag unrhyw gnwd olew llysiau tebyg, ac yn fyd-eang mae'n cyflenwi 35% o olew llysiau'r byd ar ddim ond 10% o'r tir. Mae miliynau o ffermwyr bach yn dibynnu ar gynhyrchu olew palmwydd am eu bywoliaeth.

Ond y ffordd y caiff olew palmwydd ei gynhyrchu ar hyn o bryd yw un o brif achosion datgoedwigo. Mae troi coedwigoedd yn blanhigfeydd enfawr yn difrodi cynefinoedd rhywogaethau fel orang-wtanod, eliffantod a theigrod. Mae hefyd yn gollwng llawer iawn, iawn o garbon deuocsid i'r atmosffer, gan waethygu newid hinsawdd.

Y newyddion da yw nad oes rhaid inni roi'r gorau i gynhyrchion ag olew palmwydd ynddyn nhw. Gellir ei gynhyrchu mewn ffordd gyfrifol sy'n parchu'r amgylchedd a'r cymunedau lle caiff ei dyfu. Gallwn i gyd ddewis prynu cynhyrchion gyda label RSPO (Roundtable on Sustainable Palm Oil). Gallwch ddefnyddio Cerdyn Sgorio Olew Palmwydd WWF i weld pa rai o'ch hoff frandiau a manwerthwyr sy'n defnyddio olew palmwydd cynaliadwy ac yn peidio ag achosi datgoedwigo.

<http://palmoilscorecard.panda.org/>

Os hoffech ddysgu mwy ynghylch pa mor gynaliadwy, moesegol ac iach yw'r gwahanol gynhyrchion rydych o bosibl yn eu prynu, gallech ddefnyddio ap **Giki**, cydymaith siopa cynaliadwy, sy'n rhoi amrywiaeth o wahanol fathodynau i gynhyrchion. Mae ganddo fathodyn olew palmwydd, hyd yn oed, sy'n dweud wrthy ch chi a oes unrhyw olew palmwydd yn eich cynnyrch ac yna a yw'n gynaliadwy.








GWEITHGAREDD 3: Y FRWYDR YN ERBYN LLYGREDD PLASTIG

FY NYDDIADUR PLASTIG



Eich enw _____

Dros yr wythnos nesaf, cadwch 'Dyddiadur Plastig' sy'n recordio'ch defnydd o blastig untro.

	 BAGIAU PLASTIG	 POTELI PLASTIG	 GWELT Y FED PLASTIG	 DEUNYDD LAPIO BWYD A PHECYNNAU PLASTIG	 POTIAU IOGWRT A CHYNWYSYDDION BWYD ERAILL
Dydd Llun					
Dydd Mawrth					
Dydd Mercher					
Dydd Iau					
Dydd Gwener					
Dydd Sadwrn					
Dydd Sul					
Adiwch i fynnu eich cyfansymiau yma					

Pa eitemau plastig eraill ydych chi wedi defnyddio'r wythnos yma?



GWEITHGAREDD 4: Y FRWYDR I FYND I'R AFAEL Â NEWID HINSAWDD: CHWARAE RÔL



Arweinydd y cyngor lleol

Rydych chi wedi cael eich ethol i gynrychioli'r bobl yn eich cymuned leol. Rydych chi'n gwybod bod llawer ohonyn nhw'n anhapus bod y cyngor yn rhoi arian i mewn i ddiwydiant sy'n cyfrannu at newid hinsawdd. Rydych chi hefyd yn gwybod bod rhai pobl yn eich cymuned yn gweithio yn y diwydiant tanwyddau ffosil. Rydych chi'n ymwybodol na fydd pawb yn y cyfarfod hwn yn cytuno, a'ch gwaith chi yw chwilio am dir cyffredin. Oes unrhyw feysydd y gall pobl gyntuno arnyn nhw? Beth allai rhai ffyrdd ymlaen fod?

Prif weithredwr cwmni tanwyddau ffosil

Rydych chi'n rhedeg cwmni tanwyddau ffosil mawr ac eisiau dod â chymaint o arian ag sy'n bosibl i'r bobl sydd wedi buddsoddi yn eich busnes. Rydych chi'n teimlo eich bod yn gwneud gwaith pwysig trwy sicrhau bod yna gyflenwad cyson o drydan i redeg ffatrioedd, busnesau, ysgolion a chartrefi o gwmpas y wlad. Rydych chi'n credu bod tanwyddau ffosil yn ffynhonnell rad o ynni sy'n dod â ffyniant i lawer o wledydd o gwmpas y byd.

Cynrychiolydd o'r gymuned leol

Yn ddiweddar rydych chi wedi dod yn llawer mwy ymwybodol o effeithiau newid hinsawdd. Gwelsoch y difrod achosodd llifogydd lleol yn eich cymuned y llynedd. Rydych chi eisiau i'r cyngor lleol symud ei arian allan o gwmnïau rydych chi'n teimlo eu bod nhw'n anfoesegol ac yn niweidio'r blaned. Rydych chi'n credu ein bod ni i gyd yn haeddu anadlu aer glân. Mae'r allyriadau o danwyddau ffosil yn niweidio ein planed ac yn achosi llygredd aer a all arwain at asthma a chlefydau'r galon a'r ysgyfaint.

Ymgyrchydd amgylcheddol

Rydych chi'n pryderu'n fawr am yr amgylchedd ac yn arbennig am y niwed sy'n cael ei achosi gan danwyddau ffosil. Rydych chi'n credu bod newid hinsawdd yn gymaint o fgythiad i'n planed nes bod yn rhaid inni i gyd newid ein harferion yn awr er mwyn gwneud gwahaniaeth. Rydych chi'n credu y dylai'r cyngor arwain y ffordd yn hyn o beth a gosod esiampl dda. Os na wnawn ni rywbeth yn awr, byddwn yn cyrraedd pwynt di-droi'n-ôl pan fydd y niwed i'n planed yn rhy fawr i gael ei ddadwneud.

Gweithiwr yn y diwydiant tanwyddau ffosil

Rydych chi wedi gweithio yn y diwydiant tanwyddau ffosil ers blynyddoedd lawer. Rydych chi'n credu bod tanwyddau ffosil yn hawdd eu cael a bod y seilwaith i'w defnyddio eisoes yn bodoli – er enghraifft, gorsafoedd pŵer, systemau trafndiaeth a thechnoleg. Rydych chi'n poeni y gallai unrhyw symudiad at ynni adnewyddadwy greu perygl i'ch swydd. Rydych chi hefyd yn credu mai digwyddiad naturiol yw newid hinsawdd, ac na allwn wneud dim byd yn ei gylch.

GWEITHGAREDD 5: ADDEWID I'R BLANED TEMPLED DEILEN

